

Beth yw Brwydr y Bandiau 2019?

Mae Brwydr y Bandiau yn bartneriaeth rhwng Eisteddfod Genedlaethol Cymru, a'r BBC ac yn ymgais i ddarganfod talent cerddoriaeth gyfoes Cymraeg newydd.

Bydd Brwydr y Bandiau 2019 yn cynnwys:

- **Gigs Rhanbarthol**
- **Cyfnod Mentora** i'r 6 gorau o'r Gigs Rhanbarthol
- **Rownd Derfynol** ar Lwyfan y Maes yn Eisteddfod 2019

Bydd yr artist neu y band buddugol yn derbyn:

- gwobr ariannol o £1,000 gan yr Eisteddfod
- cyfle i berfformio set yn Maes B
- sylw ar Radio Cymru
- sesiwn Radio Cymru
- erthygl nodwedd yn y Selar
- ymddangosiad ar raglen Ochr 1 ar S4C
- cyfle i'r band/artist buddugol berfformio mewn un neu fwy o gigs Mentrau Iaith

Bydd panel o Feirniaid yn penderfynu pwy fydd yn mynd drwodd o'r Gigs Rhanbarthol i'r Rownd Derfynol.

Beirniaid 2019: Lewys Wyn, Rich Roberts a Gwenllian Anthony

Bydd y chwech gorau yn elwa ar raglen fentora a chefnogaeth a fydd yn eu helpu i ddatblygu eu gyrfaoedd cerddorol ac wrth baratoi at y Rownd Derfynol.

Pwy sy'n gallu ymgeisio ar gyfer Brwydr y Bandiau?

Bydd Brwydr y Bandiau yn agored i fandiau / artistiaid sy'n cyfansoddi, cynhyrchu a pherfformio cerddoriaeth boblogaidd gyfoes wreiddiol. Mae'r genres cyfoes hyn yn cynnwys indie, electroneg, trefol, pop, roc, byd, canu gwerin cyfoes ac unrhyw genres cerddorol cyfoes eraill newydd sy'n dod i'r amlwg ar hyn o bryd.

Sut mae ymgeisio ar gyfer Brwydr y Bandiau?

Gall bandiau / artistiaid ymgeisio drwy anfon Ffurflen Gais Brwydr y Bandiau wedi ei chwblhau (sydd ar gael o'r wefan Brwydr y Bandiau yn maesb.com) ai anfon at fel a nodir ar y wefan. Y dyddiad cau fydd canol nos ar 15 Chwefror 2019.

Nodwch fod Rheolau ac Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod yn rhan o'r Rheolau. Mae copi o rhain ar gael yn y Rhestr Testunnau ar wefan yr Eisteddfod.

Ceisiadau

Bydd ceisiadau cyflawn yn cael eu hystyried gan y Trefnwyr a bydd artistiaid neu fandiau yn cael ei dosbarthu i'r Gig Rhanbarthol priodol yn ôl disgrisiwn y

Trefnwyr. Lle mae band neu artist yn gymwys i gystadlu, ond nid ydyw neu ydynt yn byw yng Nghymru, bydd y Trefnwyr yn dosbarthu yr artist neu fand i'r Rhanbarth priodol yn nhyb y Trefnwyr.

Os oes gormod o geisiadau cymwys yn nhyb y Trefnwyr, fe all y Trefnwyr drefnu clyweliadau, neu ddyfeisio unrhyw ffordd resymol o sicrhau mai y ceisiadau gorau fydd yn mynd drwodd i'r Gigs Rhanbarthol, gan gynnwys gofyn i'r ymgeiswyr lanlwytho neu gyflenwi traciau yn nisgresiwn llwyr y Trefnwyr.

Pwy sy'n gymwys ar gyfer Brwydr y Bandiau?

Rhaid i aelodau o fand neu unigolion allu profi eu bod yn 16 oed neu fwy ar 15 Chwefror 2019. Ni ganiateir ymgeiswyr sydd dros 25 ar 15 Chwefror 2019.

Lle mae 3 neu fwy mewn grŵp, gall un o'r aelodau fod dros 25, ond yn llai na 35 ar 15 Chwefror 2019.

Yn ystod y perfformiad yn y Rownd Derfynol ar Lwyfan y Maes, caniateir 20 munud i baratoi, gosod y llwyfan a gwirio lein. Rhaid defnyddio'r drymiau a ddarperir oni hysbysir chi yn wahanol – dylech wirio cyn y Gigs Rhanbarthol beth yw'r trefniadau wythnos ymlaen llaw. Bydd disgwyl i chi ddod â phob offeryn i'r rowndiau hynny, gan gynnwys drymiau, oni bai eich bod wedi clywed yn wahanol.

Oni hysbysir chi yn wahanol, rhaid i'r cystadleuwyr ddod i bob Gig Rhanbarthol o leiaf 3 awr cyn i'r drysau agor i'r cyhoedd a bod ar gael unrhyw dro wedi hynny ar gyfer gwirio sain os gofynnir iddynt.

Gall y gwobrau amrywio yn ddibynnol ar amgylchiadau tu hwnt i reolaeth y Trefnwyr. Yn benodol, nid y Trefnwyr sydd yn gyfrifol am Ochr 1 ac y Selar, felly mae'r gwobrau hynny yn dibynnu ar gydweithrediad trydydd partïon.

Bydd disgwyl i'r cystadleuwyr fod ar gael ar y dyddiadau a gynigir iddynt ar gyfer cystadlu, mentora ac unrhyw wobwr - nid oes rhaid i'r Trefnwyr na unrhyw drydydd parti sydd yn darparu gwobr gynig dyddiad arall os nad oes argaeledd ac os nad yw dyddiad cystadlu neu ddyddiad ar gyfer mentora yn gyfleus, gellir gwahardd y cystadleuydd.

Ni fydd y Trefnwyr yn talu unrhyw gostau ychwanegol i'r cystadleuwyr gogyfer y gwobrau na chystadlu (h.y. costau teithio, llety ayyb) heblaw os, mewn achos eithriadol, cytunir i'r gwrthwyneb yn benodol ac yn ysgrifenedig.

Ni ellir gwerthu na throsglwyddo'r gwobrau.

Rowndiau

Cynhelir y Gigs Rhanbarthol mewn 2, 3 neu fwy o ganolfannau ar draws Cymru. Bydd lleoliadau a dyddiadau y rowndiau hyn yn cael eu cyhoeddi yn nes at yr amser.

Bydd 3 beirniad yn ymweld â'r perfformiadau yma ac yn dewis 6 grŵp i berfformio yn y rownd derfynol a gynhalir ar Lwyfan y Maes, nos Fercher yr Eisteddfod. Beirniadir y perfformiadau ymhob rownd ar sail ansawdd y caneuon a'r cyfansoddi, y geiriau, doniau offerynnol, y lleisio, presenoldeb llwyfan, ac argraff cyffredinol. Bydd un beirniad wedi ei benodi i fod yn gadeirydd, ac mewn unrhyw bleidlais gyfartal gan Gadeirydd y beirniaid y bydd y gair olaf. Bydd y beirniaid yn cynnig cyngor i'r bandiau yn dilyn y perfformiad.

Bydd tîm cynhyrchu BBC Radio Cymru yn recordio perfformiadau byw'r bandiau yn y Gigs Rhanbarthol ac, yn ddibynnol ar safon, fe ellid darlledu'r perfformiadau neu ran o'r perfformiad yn ddi-dâl gan y BBC. Bydd y tîm cynhyrchu hefyd yn tynnu lluniau ac o bosib yn ffilmio'r digwyddiad i'w defnyddio, heb gyfyngiad, ar wefan Radio Cymru a Maes B ac i hyrwyddo'r gystadleuaeth.

Bydd y bandiau i gyd yn derbyn adborth gan y beirniaid ar ôl y Gigs Rhanbarthol gyda'r 6 band llwyddiannus hefyd yn derbyn diwrnod o fentora gan aelod blaenllaw o'r byd roc Gymraeg.

Bydd y 6 band llwyddiannus yn cael eu hyrwyddo cyn yr Eisteddfod, e.e: cyfweiliad ar Radio Cymru, Sesiwn Radio Cymru ynghyd â sylw yn y wasg ac ar gyfryngau eraill.

Telerau ac Amodau ychwanegol

1. Nid yw grwpiau neu unigolyn sydd wedi rhyddhau albwm neu EP yn fasnachol gan label cerddoriaeth cyn y dyddiad cau (ar gael ar-lein i'w chwarae neu lawrlwytho gan drydydd partiön masnachol, neu mewn siopau ar-lein neu traddodiadol ar ffurf diriaethol (megis ar gryno ddisgiau) yn medru cystadlu. Gall y rhai sydd wedi cyfrannu traciau at albwm amlgyfrannog sydd ar gael yn fasnachol mewn unrhyw fformat gystadlu.
2. Er mwyn peidio a chyfyngu gormod ar y niferoedd, caniateir i staff y BBC, neu Eisteddfod Genedlaethol Cymru a'u perthnasau agos iawn (h.y. plant, rhieni, gwarcheidwaid, chwiorydd a brodyr, gwr a gwraig neu bartneriaid sifil yn unig), cyn belled:
 - 2.1. Bod y darpar gystadleuydd yn datgelu hynny ar neu cyn y dyddiad cau, a, lle nad ef neu hi yw'r aelod staff dan sylw, enw a natur y berthynas; ac
 - 2.2. Mae'n ymddangos i'r Trefnwyr nad oes gwir beryg o ffafriaeth, naill ai mewn gwirionedd neu yn ymddangosiadol, o dan yr amgylchiadau.
3. Mater o ddisgresiwn llwyr i'r Trefnwyr yw 2.2 ac nid oes hawl apelio. Bydd y Trefnwyr yn cysylltu yn fuan wedi'r dyddiad cau i gadarnhau bod eich cais wedi'i dderbyn neu i'ch hysbysu bod eich cais wedi'i wrthod. Os gwrthodir y cais ac mae modd i chi newid yr aelodaeth i osgoi'r broblem, mae modd i'r Trefnwyr gytuno i hynny.

4. Os na wneir datgeliad o dan 2.1 cyn y dyddiad cau, fe fydd y Trefnwyr yn derbyn eich cais fel datganiad nad ydych wedi eich effeithio gan y rheol yma ac os nad yw hynny yn wir, fe ellir eich eithrio yn unol a disgrisiwn y Trefnwyr ar unrhyw adeg hyn yn oed pe bydda i caniatâd wedi'i roi fel arall.
5. Er osgoi amheuaeth, nid oes rhaid datgelu perthynas heblaw ei fod yn un o riant/plentyn; gwarcheidwad a phlentyn, brawd neu chwaer, gwr a gwraig, neu bartneriaid sifil o dan baragraff 2.1. Nid yw perthynas llai agos yn berthnasol.
6. Mae'n bosib y gofynnir i ymgeiswyr brofi oedran, enw a chyfeiriad a hawl i gystadlu.
7. Rhaid i ddeunydd gwreiddiol a gynhyrchir gan y bandiau / artistiaid fod yn addas ar gyfer ei ddarlledu ar y radio, ar deledu ac arlein (er enghraifft, bod y geiriau yn cydymffurfio â chanllawiau golygyddol y BBC a rheol Gymraeg a rheolau eraill yr Eisteddfod). Am fwy o wybodaeth am ganllawiau y BBC, ewch i http://downloads.bbc.co.uk/guidelines/editorialguidelines/pdfs/2010_Guidelines_Welsh.pdf
8. Yn unol â rheol Gymraeg yr Eisteddfod, rhaid i'r caneuon a'r cystadlu fod yn Gymraeg. Lle nad oes galw am wybodaeth o'r Gymraeg mewn achos unrhyw aelod o fand, er enghraifft, pan mae aelod yn offerynnwr neu lle mae ganddo neu ganddi allu digonol i gyfrannu llais cefndir Cymraeg, mae Brwydr y Bandiau yn agored i unrhyw berson a anwyd yng Nghymru neu y ganwyd un o'i rieni yng Nghymru, neu unrhyw berson sy'n byw yng Nghymru ers o leiaf blwyddyn cyn Eisteddfod 2019 neu unrhyw berson o unrhyw le yn y byd sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg.
9. Mae pob ymgeisydd yn cadarnhau y gall y Trefnwyr oll gyfeirio at, arddangos a defnyddio enw, delwedd, a thebygrwydd yr unigolyn neu'r band mewn cysylltiad â'r gystadleuaeth, y gwobrau a cyhoedduswydd perthnasol, ac maent yn cydnabod y gwneir hyn yn ôl disgrisiwn golygyddol y Trefnwyr.
10. Rhaid i'r band/bandiau gydweithredu gydag unrhyw gyhoedduswydd rhesymol i'r gystadleuaeth (gan gynnwys, yn achos y buddugwyr, hyd at 3 mis ar ôl y gystadleuaeth ac wedi hynny o'u gwirfodd) a gellir ddefnyddio enwau a lluniau aelodau bandiau i bwrpas marchnata a hyrwyddo.
11. Oni hysbysir chi yn wahanol, rhaid i'r cystadleuwyr ddod i bob rownd o leiaf 3 awr cyn i'r drysau agor i'r cyhoedd a bod ar gael unrhyw dro wedi hynny ar gyfer ymarfer sain os gofynnir iddynt gan y peiriannydd sain neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig a'r PA neu'r digwyddiad.
12. Mae'r Trefnwyr yn cadw'r hawl i ganslo neu addasu'r gystadleuaeth ar unrhyw adeg, os dylid gwneud hynny ym marn rhesymol y Trefnwyr mewn amgylchiadau eithriadol. Yn ogystal ag unrhyw beth arall a allai fod yn agored i ni o dan yr amgylchiadau, fe ellir eich gwahardd o'r gystadleuaeth, neu bydd y wobwr ariannol yn ad-daladwy ar gais ar unwaith, boed hynny yn llawn neu'n rhannol (yn ôl ein disgrisiwn) os:

- 12.1. nad oeddech yn gymwys i gystadlu (hyd yn oed os oedd hynny yn amlwg o'ch cais a bod eich cais wedi cael ei dderbyn lle na ddylid fod wedi ei dderbyn oni bai ein yn ein disgresiwn wedi caniatáu i chi gystadlu ar waethaf y diffyg a bod y ffaith eich bod yn cael cystadlu ar waethaf y anghymwyster wedi ei gadarnhau yn benodol ac ar ffurf llythyr neu e-bost);
 - 12.2. os byddwch yn torri un o'r rheolau;
 - 12.3. bod unrhyw beth yr ydych wedi nodi yn eich ffurflen gais neu fel rhan o'r broses ymgeisio yn anwir (boed hynny yn fwriadol a'u peidio); neu
 - 12.4. os oes gwybodaeth berthnasol a ddylai fod wedi cael ei ddatgelu ar unrhyw adeg heb gael ei ddatgelu.
13. I fandiau, mae unrhyw rwymedigaeth i ad-dalu'r wobr i'r Eisteddfod yn un ar y cyd i'r aelodau i gyd ac yn un unigol, sy'n golygu y gallwn hawlio'r swm perthnasol oddi wrth pob aelod o'r band mewn cyfrannau cyfartal neu yn llawn oddi wrth unrhyw un neu fwy o aelodau'r band unigol.
14. Lle mae'r wobr yn ad-daladwy, neu pan fo cystadleuydd yn cael ei wahardd, gellir cyhoeddi hynny a rhoi'r wobr i ba bynnag gystadleuydd fydda wedi ennill fel arall, neu rhoi lle mewn unrhyw rownd i unrhyw gystadleuydd arall fel sydd yn rhesymol briodol yn nhyb y Trefnwyr.
15. Er bod y Trefnwyr yn cydweithio ar y gystadleuaeth, nid yw'r gystadleuaeth yn bartneriaeth yn yr ystyr cyfreithiol ac rydych yn cydnabod na fydd unrhyw gyfathrebu a wneir gan y BBC, yr Eisteddfod, yn annibynnol o'r llall yn gyfathrebu ar y cyd oni bai nodir hynny yn benodol, ac nad oes un yn gyfrifol am gyfathrebu gan y llall.
16. Bydd y perfformwyr/ bandiau yn ildio'r hawliau Darlledu canlynol:
 - 16.1. Hawl i recordio (trwy unrhyw gyfrwng gweledol a/neu sain) gweithgareddau, cystadlaethau, perfformiadau, cyflwyniadau a chyngherddau'r Eisteddfod.
 - 16.2. Yr hawl i gynnwys eich perfformiad (neu ran ohono) yn ddi-dal arlein a/neu mewn rhaglenni teledu a/neu radio a/neu pytau cyhoeddusrwydd i'w darlledu gan gynnwys, heb gyfyngiad, S4C a/neu BBC Radio Cymru yn unol â'r cytundebau darlledu a wnaed (neu a wneir) rhwng yr Eisteddfod â'r BBC a/neu S4C;
 - 16.3. Yr hawl i gynnwys eich perfformiad (neu ran ohono) mewn rhaglenni teledu neu radio a ddarllidir gan BBC Wales neu ITV Wales ar unrhyw adeg;
 - 16.4. Yr hawl i gynnwys deunydd ar iPlayer, Clic, ITV Player, BBC Store, neu unrhyw wasanaeth ar alw;

- 16.5. yr hawl i'r Trefnwyr ddefnyddio eich perfformiad (neu ran ohono) i bwrpas hysbysebu a chyhoedduswydd, gan gynnwys (heb gyfyngiad) defnydd ar wefan unrhyw un o'r Trefnwyr; a'r
- 16.6. hawl i gynnwys eich perfformiad (neu ran ohono) ar unrhyw wefan a sefydlir i bwrpas addysgol a/neu gelfyddydol lle na hawlir tâl am weld y deunydd.
17. Nid yw'r enghreifftiau uchod yn cyfyngu ar hawliau y BBC ac fe ddylir nodi y gall unrhyw wasanaeth BBC, yn ddarostyngedig i unrhyw gytundeb i'r gwrthwyneb gyda'r Eisteddfod, ddefnyddio, neu, os yw'r BBC yn caniatáu, unrhyw un o'r Trefnwyr neu drydydd parti arall, ddefnyddio unrhyw recordiad sain, gweledol neu glyweledol gan y BBC o'r Gigs Rhanbarthol, y Rownd Derfynol a Gig Maes B, ac hefyd, unrhyw recordiad o'r Cyfnod Mentora a Sesiwn Radio Cymru.
18. Mae'r BBC ac S4C angen rhyddid i olygu neu addasu unrhyw recordiad, ddarllediad neu raglen, gan gynnwys eich perfformiad chi.
19. Rydych yn cytuno i beidio ag arddel unrhyw hawl cyfreithiol a elwir yn "hawl moesol" (o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadu a Phatentau 1988 neu fel arall) mewn perthynas â'r perfformiad, a bydd arwyddo'r ddogfen hon yn gweithredu fel ildiad terfynol gennych ar gyfer hyn.
20. Er nad oes bwriad i ddefnyddio'r hawl os na bo raid er budd y gystadleuaeth, mae gan y Trefnwyr yr hawl yn unfrydol i beidio gweithredu rheol, neu peidio ei weithredu i'r llythyren lle mae hi'n ymddangos iddynt y bydda hi'n y dylid gwneud hynny ac nad yw gwneud hynny yn creu annhegwch materol.
21. Fe all unrhyw un neu fwy o'r Trefnwyr orfodi y telerau yma yn erbyn unrhyw gystadleuydd.
22. Os oes angen yn nhyb rhesymol un o'r Trefnwyr, fe wnaiff pob aelod o fand arwyddo unrhyw ddogfen sydd a ystyrir yn rhesymol i roi effaith i neu gadarnhau unrhyw un o'r ymrwymadau a wneir yma.